INSHOU40

Rheoli a chynnal ymchwiliadau i anghydfodau a thorri cytundebau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli a chynnal ymchwiliadau i anghydfodau a thorri cytundebau. Bydd unigolion hefyd yn rheoli ymchwiliadau unigol ac yn cymryd rhan mewn unrhyw achos cyfreithiol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadarnhau bod gweithdrefnau a pholisïau gweithredol ar waith i leihau ac atal anghydfodau neu dorri cytundebau
2. dechrau a chynnal ymchwiliad ffurfiol i dorri cytundeb yn unol â'r gofynion cyfreithiol a gweithredol perthnasol
3. cyfweld â'r holl unigolion a sefydliadau perthnasol mewn perthynas ag adroddiadau neu honiadau o dorri cytundeb
4. cadarnhau bod ymchwiliadau ffurfiol i anghydfodau a thorri cytundeb yn unol â'r gofynion cyfreithiol a gweithredol perthnasol
5. cadw cofnodion o'ch ymchwiliadau a'ch camau gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol a gweithredol perthnasol
6. rheoli'r broses o nodi, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth o anghydfodau a thorri cytundeb a pharatoi achosion ar gyfer camau cyfreithiol
7. cysylltu ag arbenigwyr cyfreithiol perthnasol ac asiantaethau eraill i benderfynu ar anghydfodau a thorri cytundebau a chymryd camau ar sail hynny
8. dilyn gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cynorthwyo tystion yn ystod ymchwiliad ac wedi hynny
9. cadarnhau nad yw camau gweithredu yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau
10. datblygu a rheoli systemau a gweithdrefnau i fonitro anghydfodau a thorri cytundebau
11. defnyddio data gwybodaeth rheoli i nodi tueddiadau ac eiddo neu ardaloedd lle ceir nifer arbennig o uchel o anghydfodau a thorri cytundebau
12. nodi grwpiau sy'n agored i niwed a sut gellir eu diogelu

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer ymchwilio i anghydfodau neu dorri cytundebau a chymryd camau ar eu sail
2. hawliau a chyfrifoldebau cwsmeriaid o dan gytundebau
3. y ddeddfwriaeth berthnasol, yn enwedig mewn perthynas â throseddu, anhrefn cyhoeddus, ymddygiad gwrthgymdeithasol, iechyd a diogelwch a rheoliadau tân
4. y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i anghydfodau neu achosion posibl o dorri cytundeb
5. sut i asesu a lleihau risg i chi eich hun ac i eraill
6. yr opsiynau sydd ar gael wrth ddelio ag anghydfodau a thorri cytundeb
7. yr arbenigwyr a'r asiantaethau cyfreithiol perthnasol y gallai fod angen i chi weithio gyda nhw
8. y gweithdrefnau sefydliadol a chyfreithiol perthnasol sy'n ymwneud â'ch camau gweithredu
9. eich gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cyfleu penderfyniadau
10. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
11. sut i gasglu gwybodaeth rheoli a'i dadansoddi

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH408
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; monitro; adolygu; rheoli; ymchwilio; anghydfodau;